

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ludlow Street Healthcare

Heatherwood Court

Unedau Caernarvon, Caerphilly,
Cardigan a Chepstow

Dyddiad arolygu:

19 - 21 Tachwedd 2018

Dyddiad cyhoeddi: 22 Chwefror
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Rhoi gofal diogel ac effeithiol.....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth nesaf?.....	27
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	28
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	29
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol Heatherwood Court ar noson 19 Tachwedd a'r diwrnodau canlynol, sef 20 ac 21 Tachwedd 2018. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned Caernarvon – uned adsefydlu wedi'i chloi ag 11 gwely (merched)
- Uned Caerphilly – uned diogelwch isel â 12 gwely (merched)
- Uned Cardigan – uned diogelwch isel â 12 gwely (merched)
- Uned Chepstow – uned diogelwch isel â 12 gwely (dynion)

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth i gleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl (1983), Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), Deddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelwom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwella prosesau rheoli meddyginiaethau a dealltwriaeth ac arfer y staff o ran arsylwi ar gleifion yn ystod y nos.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau a therapïau i gleifion yn yr ysbyty a'r gymuned
- Roedd staff ar ddyletswydd yn y dderbynfa ddydd a nos, yn ogystal â staff gweinyddol, gyda gwiriadau diogelwch trylwyr yn cael eu cynnal ar gyfer ymwelwyr
- Roedd yn rhoi pwyslais ar y gofal lleiaf cyfyngol er mwyn helpu'r cleifion i wella a helpu'r cleifion i gynnal a datblygu eu sgiliau

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae gweithgareddau ar y safle wedi'u cyfyngu i oriau yn ystod y dydd ac mae cyfleoedd i gymryd rhan yn y gweithgareddau wedi'u cyfyngu gan argaeledd y staff
- Arferion sy'n ymwneud â dosbarthu meddyginiaethau
- Arferion sy'n ymwneud ag arsylwi ar gleifion yn ystod y nos

Gwnaethom nodi nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r canlynol:

Rheoliad 15 (5) (a) a (b) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 mewn perthynas â diogelu cleifion rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio a rheoli meddyginiaethau yn anniogel;

Rheoliad 15 (1) (b) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 mewn perthynas ag ansawdd y driniaeth a gwasanaethau eraill a ddarperir, yn benodol, sicrhau llesiant a diogelwch cleifion.

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi cael sicrwydd digonol ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen.

Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Heatherwood Court wedi'i gofrestru i ddarparu ysbyty iechyd meddwl annibynnol yn Heatherwood Court, Ffordd Llantrisant, Pontypridd, CF37 1PL.

Ar y safle ceir ysbyty rhyw cymysg ag unedau rhyw benodol. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 47 o gleifion rhwng 18 a 64 oed; ar adeg yr arolygiad, roedd 45 o gleifion yno.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ym mis Rhagfyr 2007.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig dros dro sydd wrthi'n mynd drwy'r broses gofrestru ar hyn o bryd, a Rheolwr Cyffredinol yr Ysbyty sydd newydd ei benodi. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys:

- Y Cyfarwyddwr Meddygol, Seiciatrydd Ymgynghorol ac Arbenigwr Cyswllt
- Rheolwr Arwain Clinigol, pedwar Rheolwr Uned a thimau o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth
- Seicolegydd Arweiniol, un Seicolegydd Clinigol, Seicolegydd Fforensig, Ymarferydd Seicolegol, pedwar Gweithiwr Ymadfer Seicoleg
- Pennaeth Therapiau, Uwch Therapydd Galwedigaethol, Therapydd Galwedigaethol, Technegydd Therapi Galwedigaethol,

Gallai'r tîm hefyd gael gafael ar ddisgyblaethau Ffisiotherapi, Deietegydd a Therapi Lleferydd ac Iaith.

Roedd gweithrediad yr ysbyty yn cael ei gefnogi gan dimau ymroddedig o staff gweinyddol, staff ysgrifenyddol, staff ystadau, staff cynnal a chadw a staff arlwy.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod y staff, yr uwch reolwyr a'r staff cynorthwyol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Rhodddwyd amrywiaeth o wybodaeth gyfredol i'r cleifion er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau ynghylch eu gofal, eu triniaeth a'u llesiant.

Roedd yr ysbyty yn darparu cyfleoedd hybu, diogelu a gwella iechyd i'r cleifion a oedd yn cael eu cefnogi gan ystod dda o gyfleusterau yn yr ysbyty. Roedd y rhain yn darparu rhaglenni integredig ac amrywiaeth o weithgareddau i'r cleifion a oedd yn helpu'r cleifion i gynnal a datblygu sgiliau er mwyn gwella profiad cleifion yn yr ysbyty ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Gwnaethom siarad â chleifion ym mhob un o bedair uned Heatherwood Court yn ystod yr arolygiad. Ar y cyfan, cafwyd sylwadau cadarnhaol gan y cleifion am y gofal roeddent yn ei gael a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch gan yr aelodau parhaol o'r staff. Fodd bynnag, nododd rhai fod staff asiantaeth yn talu llai o sylw iddynt ac nad oeddent yn deall anghenion cleifion unigol na'r grŵp cleifion yn gyffredinol cystal â'r staff parhaol.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o wybodaeth a mentrau ym maes hybu, diogelu a gwella iechyd ar gael i'r cleifion yn yr ysbyty a oedd yn helpu i gynnal a gwella eu llesiant. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fwyta'n iach, rhoi'r gorau i smygu a chadw eu hunain yn lân. Roedd y wybodaeth hon mewn gwahanol fformatau gan gynnwys fformatau hawdd eu darllen.

Roedd y staff yn cwblhau archwiliadau hybu iechyd pan oedd y cleifion yn cael eu derbyn i'r ysbyty.

Urddas a pharch

Gwelsom fod staff y ward, uwch reolwyr a staff gweinyddol, yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roeddent yn cefnogi ac yn gofalu am y cleifion.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch, gan gynnwys rhyngweithio'n brydlon ac yn briodol, mewn ymgais i atal ymddygiad cleifion rhag mynd yn fwy difrifol. Pan oedd cleifion yn mynd at aelodau o staff roeddent yn cael eu trin mewn ffordd gwrtais ac ymatebol.

Fodd bynnag, nododd rhai cleifion fod yr aelodau parhaol o'r staff yn eu trin yn llawer gwell na rhai aelodau o staff asiantaeth.

Roedd polisïau'r ysbyty a'r arferion staff a welsom yn helpu i gynnal urddas y cleifion a gwella gofal unigoledig yn yr ysbyty. Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal i adolygu a thrafod arferion er mwyn lleihau'r cyfyngiadau ar gleifion yn Heatherwood Court yn seiliedig ar risgiau cleifion unigol.

Mae gan yr ysbyty bedair uned rhyw benodol ac roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun y gallai fynd iddi drwy gydol y dydd. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig safon dda o breifatrwydd ac urddas i gleifion. Roedd cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely eu hunain er mwyn atal cleifion eraill rhag mynd i mewn iddynt; gallai'r staff ddatgloi ystafelloedd y cleifion os oedd angen.

Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely ac roedd yn amlwg bod modd i gleifion bersonoli eu hystafelloedd gwely. Roedd digon o le i gleifion storio eu heiddo personol yn eu hystafelloedd. Roedd unrhyw eitemau oedd yn cael eu hystyried yn beryglus i gleifion, fel raseli, caniau erosol ac ati yn cael eu storio'n ddiogel ac yn drefnus ar bob ward ac wedyn byddai'r cleifion yn gofyn amdanynt yn ôl yr angen.

Roedd paneli arsylwi yn nrysau'r ystafelloedd gwely fel y gallai'r staff arsylwi ar y cleifion heb agor y drws ac amharu arnynt o bosibl. Roedd hi'n gadarnhaol nodi bod y paneli arsylwi ar gau a'u bod yn cael eu hagor er mwyn arsylwi cyn eu cau drachefn. Roedd hyn yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Nodwyd rhai pryderon ynghylch arsylwadau yr ymdrinnir â nhw mewn adrannau yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Nid oes cyfleusterau en-suite yn yr ystafelloedd gwely. Fodd bynnag, roedd digon o doiledau a chawodydd ar gael ar y ddau lawr ym mhob uned. Roedd yr ardaloedd hyn i'w gweld yn lân ac yn daclus ac yn briodol i'r grŵp cleifion.

Roedd drych Perspex wedi'i osod yn ddiweddar mewn un ystafell gawod ar ward Chepstow. Nid oedd ffrâm amddiffyn o amgylch y drych ac roedd yn achosi risg o niwed i'r cleifion. Tynnwyd sylw'r staff at hyn a chafodd ei symud ar unwaith.

Roedd gan bob ward ystafelloedd penodol i gleifion gyfarfod â staff y ward a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn breifat. Roedd ystafell ymweld hefyd, yn nerbynfa'r ysbyty, a oedd ar gael i'r cleifion gyfarfod ag ymwelwyr, gan gynnwys aelodau iau o'r teulu. Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ar gael yn yr ystafell hon gan gynnwys copi o Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl Cymru¹.

Roedd trefniadau addas ar waith ym mhob un o'r wardiau i alluogi'r cleifion i wneud a derbyn galwadau ffôn yn breifat.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl osodiadau a ffitiadau yn ddiogel ac yn briodol i'r grŵp cleifion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff asiantaeth yn cynnal y safonau gofal a ddisgwylir ac a ddangosir gan yr aelodau parhaol o'r staff.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd amrywiaeth o wybodaeth gyfredol ar gael yn yr ysbyty. Roedd hysbysfyrdau ar y wardiau yn dangos gwybodaeth fanwl a pherthnasol i'r cleifion.

Roedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos yn cynnwys gweithgareddau i'r cleifion, gwybodaeth statudol, gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r gwasanaethau eirioli a ddarperir a sut i wneud cwyn. Fodd bynnag, nid oedd manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gael ar ward Chepstow.

Hefyd, roedd gwybodaeth am sut i gael gafael ar wasanaethau lleol megis y deintydd.

¹<https://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/law/code-of-practice/?lang=cy>

Dywedwyd wrthym, fel rhan o'r archwiliad ar alwad efydd rheolaidd² fod gwybodaeth a oedd yn cael ei harddangos i'r cleifion yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chynnal a'i bod ar gael i'r cleifion. Cadarnhawyd hyn gan sawl aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw.

Roedd llawlyfr y cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ac roedd ar gael mewn fformatau hawdd eu darllen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gael ar hysbysfyddau'r cleifion ar bob ward.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Lle roedd cleifion yn cael anhawster o hyd i egluro rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roeddent yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oeddent wedi'i ddweud.

Roedd pob uned yn cynnal cyfarfodydd cynllunio dyddiol er mwyn trefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ynghyd â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, fel cyfarfodydd cynllunio gofal, tribiwnlysoedd, apwyntiadau meddygol ac ati.

Roedd pob uned yn cynnal cyfarfod wythnosol lle roedd y cleifion yn cael cyfle i roi adborth ar y gofal y maent yn ei gael yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon. Dywedwyd wrthym, o ddechrau 2019 ymlaen, y bydd pob ward yn cynnal cyfarfod 'sgrym' wythnosol er mwyn i'r cleifion allu cyfleu eu barn i'w gilydd ac i'r ysbyty yn effeithiol.

²Deirgwaith yr wythnos byddai'r aelod ar alwad Efydd yn mynd i'r ysbyty er mwyn cynnal archwiliad o'r ysbyty y tu allan i oriau.

Roedd yr ysbyty hefyd yn cynnal cyfarfod misol lle y gallai cynrychiolwyr y cleifion o bob un o'r unedau gyfarfod ag uwch reolwyr yr ysbyty er mwyn trafod gweithrediad yr ysbyty a chodi unrhyw faterion a oedd yn achosi pryder.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb cleifion, roedd eu teuluoedd a'u gofalwyr hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd

Cynllunio a darparu gofal

O safbwynt cynllunio gofal ac ymarfer yn y wardiau a'r ysbyty, roedd pwyslais clir ar adsefydlu gyda gofal wedi'i addasu i gleifion unigol a'i gefnogi gan yr arferion lleiaf cyfyngol.

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau wythnosol ei hun, a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, a gynhelir yn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd ei angen, roedd awdurdodiad wedi cael ei roi).

Roedd gan yr ysbyty amrywiaeth eang o gyfleusterau, a oedd mewn cyflwr da, er mwyn helpu i ddarparu therapiâu a gweithgareddau. Roedd y tîm therapi galwedigaethol yn cynnal asesiadau o alluoedd cleifion a pha therapiâu, cymorth a gweithgareddau a fyddai'n fuddiol er mwyn helpu'r claf i ymadfer.

Roedd uned therapiâu a gweithgareddau ddynodedig yn yr ysbyty a elwir yn 'The Hub'. Roedd cyfleusterau 'The Hub' yn cynnwys y 'Social Hub' gyda chaffi a siop a oedd yn cael eu gweithredu gan ddetholiad o gleifion. Roedd ystafell gemau gya bwrdd pŵl, bwrdd tennis bwrdd a bwrdd dartiau. Roedd ystafell gwaith coed hefyd yn ogystal ag ardal ar gyfer dysgu sgiliau cynnal a chadw beiciau.

Roedd gan 'The Hub' gegin therapi â thair ardal ar gyfer dysgu ac ymarfer sgiliau coginio. Roedd nifer o ystafelloedd eraill gan gynnwys yr ystafell aml-ffydd, ystafell gelfyddyd, dwy ystafell therapi, ystafell addysg ac ystafell gyfrifiaduron.

Nododd y cleifion fod yr amser a oedd ar gael i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn gyfyngedig a'i fod wedi cael ei leihau yn ddiweddar am fod oriau gwaith yr adran therapi wedi newid. Roedd y cleifion hefyd yn dibynnu ar argaeledd aelod o'r staff i oruchwylio mynediad i'r cyfleusterau hyn.

Roedd y cleifion yn gallu manteisio ar amrywiaeth o raglenni addysg achrededig tra roeddent yn Heatherwood Court. Rhoddodd y staff enghreifftiau

penodol lle roeddent wedi helpu cleifion gyda'u haddysg pan oeddent yn yr ysbyty.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y gwasanaethau therapi i'r cleifion yn hygyrch er mwyn diwallu anghenion y cleifion.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd arferion y staff a oedd yn gyson â pholisïau a systemau sefydledig yr ysbyty yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau cleifion yn cael eu cynnal.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd cyfarfodydd rheolaidd â chleifion yn cael eu cynnal er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty.

Roedd polisi a gweithdrefnau cwyno ar waith yn Heatherwood Court. Mae'r polisi yn cynnig strwythur i ymdrin â chwynion cleifion ar gyfer gwasanaethau yn yr ysbyty.

Roedd gwybodaeth ar gael hefyd i berthnasau a gofalwyr, gan gynnwys gwybodaeth am sut i roi adborth, yn nerbynfaf'r ysbyty.

Rhoi gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gyda dodrefn, gosodiadau a ffitiadau addas ar gyfer y grŵp hwn o gleifion.

Roeddem yn fodlon bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwella rhai o arferion y staff sy'n ymwneud â rhoi meddyginiaeth ac arsylwi yn ystod y nos.

Roedd gofal yn cael ei roi i'r cleifion gydag athroniaeth y gofal lleiaf cyfyngol yn flaenllaw yng ngweithrediadau'r staff. Roedd y dull hwn o weithredu hefyd yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth cleifion yn adlewyrchu parthau Mesur Iechyd Meddwl Cymru.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

O safbwynt cynllunio gofal ac ymarfer yn y wardiau a'r ysbyty, roedd yr ysbyty yn darparu gofal wedi'i addasu i gleifion unigol a'i gefnogi gan yr arferion lleiaf cyfyngol. Roedd hyn yn cynnwys Cynlluniau Cymorth Diogelwch cleifion unigol a ddatblygwyd gydag aelodau o'r tîm seicoleg a chleifion unigol.

Roedd prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Fodd bynnag, roedd anghysonebau o ran y ffordd roeddent yn cael eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'r ysbyty.

Yn ystod ein harolygiadau blaenorol codwyd pryderon ynghylch yr arfer o arsylwi ar gleifion pan oeddent yn eu hystafelloedd gwely. Yn ystod yr arolygiad hwn gwelsom rai aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r claf ar lafar yn unig ac yn methu ag arsylwi ar y claf er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac nad oedd yn ceisio niweidio ei hun. O siarad â'r staff a'r cleifion roedd yn amlwg nad oedd argymhellion blaenorol ynghylch y ffordd y dylid cynnal arsylwadau yn cael eu dilyn gan bob aelod o'r staff.

Mae hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'r darparwr mewn perthynas â diogelwch cleifion. Cafodd AGIC sicrwydd digonol bod sylw yn cael ei roi i'r mater hwn.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y darparwr cofrestredig wedi datblygu rhaglen hyfforddi ar sut i arsylwi ar gleifion yr oedd yr holl staff parhaol, banc ac asiantaeth yn ei chwblhau. Roedd yn ofynnol cwlhau'r hyfforddiant cyn i unrhyw aelod newydd o staff ddechrau sifft.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth os oedd ei angen; roedd y rhain yn cael eu rhoi i'r staff yn y dderbynfa pan oeddent yn mynd i mewn i'r ysbyty. Hefyd, roedd manau galw am nyrs mewn ardaloedd cymunol yn ogystal ag ystafelloedd gwely'r cleifion.

Ar y cyfan, roedd yr ysbyty mewn cyflwr da a oedd yn sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr. Roedd y staff yn gallu rhoi gwybod am broblemau amgylcheddol i dîm ystadau'r ysbyty a oedd yn cadw cofnod o broblemau a gwaith yr oedd angen ei wneud ac a gwblhawyd. At hynny, roedd yr uwch reolwyr yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r ysbyty er mwyn adolygu'r amgylchedd.

Roedd dodrefn, gosodiadau a ffitiadau'r ysbyty yn briodol i'r grŵp cleifion. Roedd asesiadau risg diweddar ar gael mewn perthynas â phwyntiau clymu. Roedd y rhain yn nodi pwyntiau clymu posibl a pha gamau oedd wedi cael eu cymryd i ddileu neu reoli'r rhain.

Yn ystod yr ymweliad cychwynnol â ward Chepstow, roedd braich cau drws uwchben drws yr ystafell dawel wedi dod yn rhydd. Tynnwyd sylw'r rheolwr nos at hyn a gwnaeth drefniadau iddi gael ei hatgyweirio'n briodol drannoeth.

Roedd ffenestri swyddfeydd y nyrsys yn dechrau mynd yn orlawn o bosteri gwybodaeth. Mae hwn yn fater a godwyd mewn arolygiad blaenorol, ac mae'n cael ei fonitro fel rhan o archwiliad efydd y nos. Er mai gwybodaeth ydoedd a oedd yn cael ei harddangos er budd y cleifion, roedd yn cyfyngu ar yr hyn roedd yn bosibl ei weld o swyddfeydd y nyrsys. Roedd swyddfa'r nyrsys i lawr y grisiau ar ward Chepstow wedi cael ei symud i ystafell fach iawn heb unrhyw ffenestr o gwbl yn edrych allan ar y ward.

Roedd yr ysbyty yn cadw Cofnod Dyddiol o Hwyliau a oedd yn tynnu sylw'r sifft nesaf at bryderon a risgiau. Cadarnhaodd y staff fod proses ar waith lle roeddent yn gallu cynnal arsylwadau ychwanegol os oedd angen a, lle roedd yn gymwys, gynyddu nifer y staff er mwyn hwyluso hyn.

Roedd yr ysbyty yn defnyddio menter Wardiau Diogel³ sy'n helpu staff i leihau'r risg o ymddygiad heriol ymysg cleifion a nifer yr achosion o ymddygiad o'r fath drwy arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd hyn yn helpu i sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Cofnodwyd digwyddiadau ar y system a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o ddulliau atal corfforol yn cael ei ddogfennu, gan gynnwys pwy oedd dan sylw ac osgo corff pob person dan sylw. Mae pob digwyddiad yn destun adolygiad gan gymheiriaid a gynhelir gan reolwr ward o ward wahanol.

Roedd hierarchaeth ar waith o ran ymdrin â digwyddiadau a oedd yn sicrhau bod adroddiadau am ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu'n amserol gan aelod o'r tîm clinigol sydd ynghlwm wrth ofal y claf unigol a chyflogai sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn yr ysbyty.

Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi. Gellid llunio adroddiadau ychwanegol yn ôl yr angen i edrych ar feysydd penodol. Roedd y system a'r amserlenni ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u monitro er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel yn Heatherwood Court.

Rhodddwyd enghreifftiau o'r adroddiadau hyn i'r arolygwyr ac roeddent yn cynnwys dadansoddiadau manwl a hawdd eu deall o'r mathau o ddigwyddiadau a gofnodwyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhad i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r broses arsylwi yn ystod yn nos ac yn darparu'r lefel briodol o arsylwi ar gyfer pob claf fel y'i nodir yn ei gynllun gofal unigol.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig fynd i'r afael â swyddfa'r ward ar ward Chepstow

³ <http://www.safewards.net/>

sy'n gyfyng ac yn orlawn ac nad oes modd gweld y ward na'r cleifion ohoni.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Mae'r darparwr cofrestredig yn cyflogi staff cadw tŷ dynodedig ar gyfer Heatherwood Court. Roedd yr ystafell ymolchi, y cawodydd a'r toiledau cyffredin yn lân ac yn daclus a heb eitemau diangen wedi'u gadael yno. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo yn y gegin a'r ardaloedd golchi yn y ddwy ward.

Roedd yr offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol mewn cypyrddau wedi'u cloi. Ar y cyfan, drwy gydol yr arolygiad gwelsom fod yr ysbyty yn lân yr olwg heb unrhyw annibendod.

Cadarnhaodd staff y wardiau fod ganddynt stoc briodol o Gyfarpar Diogelu Personol; roedd yn cael ei storio yn y cypyrddau domestig a'r ystafelloedd clinigol.

Roedd cyfleusterau cyflenwi gel glanhau dwylo mewn sawl man yn yr ysbyty ac ar bob ward.

Disgrifiwyd system o archwiliadau rheolaidd o ran rheoli heintiau. Cwblhawyd yr archwiliadau hyn gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau priodol lle y bo angen. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol ar y wardiau ac roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Roedd biniau plastig dynodedig yn cael eu defnyddio i storio a gwaredu eitemau meddygol miniog yn ddiogel, er enghraifft, nodwyddau hypodermig. Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel.

Maeth

Roedd y cleifion yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion bwyta ac yfed.

Nodwyd gennym fod y cleifion yn cael dewis o brydau bwyd ar fwydlen pedair wythnos. Gwelsom fod y fwydlen yn amrywiol a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gallu dewis eu bwyd. Roedd y fwydlen yn cael ei harddangos mewn

man amlwg ar bob ward. Gallai'r cleifion hefyd wneud ceisiadau penodol i'r gegin i newid prydau o fwyd. Roedd y ceisiadau hyn yn cael eu caniatáu lle roedd hynny'n bosibl.

Roedd diodydd a ffrwythau ffres ar gael drwy gydol y dydd ac roedd gan y cleifion storfa ddiogel ar gyfer eu byrbrydau eu hunain. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd a'i fod o ansawdd da, yn eu barn nhw.

Fel rhan o'u rhaglen ymadfer unigol, roedd y cleifion yn gallu defnyddio'r ceginau ar y wardiau i baratoi eu prydau a'u byrbrydau eu hunain.

Edrychwyd ar sampl o siartiau bwyd a siartiau pwysau ar gyfer y cleifion hynny yr oedd eu hangen arnynt. Roeddent wedi cael eu cwblhau'n briodol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel gyda chypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth dan glo. Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau ar waith yn Heatherwood Court. Fodd bynnag, gwelsom fod anghysondeb o ran y ffordd roedd y prosesau hyn yn cael eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'r ysbyty.

Roedd gan yr ysbyty restr wirio Cymhwysedd Meddyginiaeth Nyrsio Dyddiol er mwyn helpu'r staff i reoli meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd yn amlwg bod y rhain yn cael eu cwblhau yn ôl yr angen.

Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrddydd.

Gwelsom y broses o ddsbarthu cyffuriau a reolir amser cinio ar waith ar ward Chepstow a ward Cardigan. Canfu'r nyrs staff ar ward Cardigan hanner tabled diazepam ar y llawr yn yr ystafell glinigol a nododd eu bod yn credu eu bod hanner tabled yn brin ar rownd gyffuriau'r bore. Mae diazepam yn gyffur a all gael ei gamddefnyddio (DLM). Cafodd y cyffur hwn ei waredu yn y gwastraff clinigol a gwnaed cofnod yn y llyfr DLM.

Unwaith eto ar ward Cardigan gwelwyd y nyrs staff yn defnyddio chwistrell a oedd wedi'i defnyddio o'r blaen i roi surop i gleifion drwy eu cegau. Y rheswm

dros hyn oedd lefel isel y stoc o chwistrellau untro. Roedd y nyrs staff hefyd wedi rhoi tabled yn y pot meddyginiaeth â'i llaw yn hytrach na defnyddio 'techneg peidio â chyffwrdd'⁴, sy'n groes i god ymddygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Ar ward Cardigan a ward Chepstow gwelsom fod y troli cyffuriau a'r cwpwrdd cyffuriau a reolir wedi'u gadael heb eu cloi pan nad oedd staff yn bresennol yn ystod yr adeg dosbarthu cyffuriau. Tynnwyd sylw'r staff at hyn ar y pryd ond parhau a wnaeth yr arfer. At hynny, gwelsom staff ar ward Cardigan a ward Chepstow yn llofnodi ar gyfer meddyginiaethau a oedd wedi'u rhoi yn y bore tra roeddent yn cynnal y rownd gyffuriau amser cinio.

Roedd lefelau stoc cyffuriau a reolir a gofnodwyd ar ward Chepstow yn is na lefel wirioneddol y cyffuriau a oedd mewn stoc. Tynnwyd sylw'r uwch reolwyr at y mater hwn a gwnaethant nodi y byddent yn unioni hyn.

Nid oedd unrhyw gopi caled o'r polisi rheoli meddyginiaeth yn yr ystafell glinigol ar ward Cardigan.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddiogelu'r cleifion rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio a rheoli meddyginiaethau mewn ffordd anniogel, gan sicrhau bod polisi rheoli meddyginiaethau cadarn ar waith a ddilynir gan bob aelod o'r staff. Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan ein proses diffyg cydymffurfio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn llofnodi taflenni cyffuriau pan fydd cyffuriau yn cael eu rhoi i'r cleifion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod troliâu meddyginiaeth a'r cypyrddau lle mae cyffuriau a all gael eu camddefnyddio yn cael eu storio wedi'u cloi pan na fydd yr ystafell driniaeth yn cael ei defnyddio.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff eitemau meddygol untro eu

4

http://health.answers.com/Q/How_do_you_prepare_medication_using_a_non_touch_technique

gwaredu ar ôl iddynt gael eu defnyddio unwaith yn unig.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copi caled o'r polisi rheoli meddyginiaethau ar gael ym mhob ystafell driniaeth.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn mabwysiadu technegau peidio â chyffwrdd priodol wrth roi meddyginiaeth i'r cleifion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y stoc o gyffuriau a reolir ym mhob ystafell driniaeth ei chofnodi'n gywir.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff ar y ddwy ward yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd y Rheolwr Cyffredinol yn monitro'r cyfraddau cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd archwiliad o'r cyfarpar dadebru yn cael ei gynnal bob wythnos; roedd y staff wedi cofnodi pryd y digwyddodd y rhain er mwyn sicrhau bod yr offer yn bresennol.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom drafod y ffaith mai dim ond un set o gyfarpar dadebru sy'n cael ei chadw ger y dderbynfa gyda nifer o'r staff a'r rheolwyr. Roedd y staff o'r farn bod hyn yn ddigonol ac y gallent gael gafael ar y cyfarpar yn amserol pe bai ei angen.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael ag anghysondebau o ran arferion y staff, gan gynnwys y meysydd sy'n peri pryder a nodwyd o dan "Rheoli Meddyginiaethau" ac arsylwi ar gleifion yn ystod y nos er mwyn sicrhau bod gofal diogel a chlinigol effeithiol yn cael ei ddarparu ym mhob rhan o'r ysbyty.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn gyfuniad o ffeiliau papur a oedd yn cael eu storio a'u cynnal yn swyddfa'r nyrsys, a oedd dan glo, a gwybodaeth electronig, a oedd wedi'i diogelu gan gyfrinair. Gwelsom staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Er bod cofnodion gofal manwl ar gyfer y cleifion, roeddent wedi'u rhannu rhwng nifer o ffeiliau papur ac electronig a oedd yn ei gwneud hi'n anodd dod o hyd iddynt a'u hadolygu. Fodd bynnag, roedd y cofnodion o safon uchel iawn a'r unig fater a nodwyd oedd nad oedd unrhyw gofnod o anghenion nas diwallwyd i'w weld yn yr un o'r ffeiliau a archwiliwyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion nas diwallwyd yn cael eu cofnodi ar gyfer pob claf

Monitro'r Deddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych dros ddogfennau cadw statudol pedwar claf ar wardiau Cardigan a Caerphilly. Adolygwyd hefyd y prosesau llywodraethu ac archwilio a oedd ar waith i fonitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ym mhob un o'r pedair ward.

Cyflawnir swyddogaeth monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ganolog yn y brif swyddfa gan adran ddynodedig. Mae copïau caled o'r wybodaeth berthnasol yn cael eu cadw'n lleol gyda ffeil gofal y cleifion.

Cynigiwyd copïau o'u papurau cadw i'r cleifion fel mater o drefn a rhoddwyd esboniad llafar iddynt. Rhoddwyd gwybodaeth i'r cleifion am eu holl hawliau mewn perthynas â meddyginiaeth a thriniaeth ynghyd â'u tystysgrifau cydsynio i driniaeth. Cofnodwyd hyn gyda dogfennau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd awdurdodiad i adael yr ysbyty o dan Adran 17⁵ wedi'i gofnodi'n glir ac yn gywir. Gwelsom dystiolaeth bod dull hyblyg o awdurdodi a hwyluso'r absenoldeb hwn er mwyn diwallu anghenion penodol y claf.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal pum claf i gyd.

Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu parthau Mesur Cymru gydag amcanion mesuradwy.

Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth unigol yn cyfeirio at gryfderau'r claf ac yn canolbwyntio ar wellhad, adsefydlu ac annibyniaeth. Roedd y rhain wedi cael eu datblygu gydag aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol ac roeddent yn cynnwys gwaith monitro iechyd corfforol da a hyrwyddo iechyd.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, roedd yn amlwg nad oedd y staff yn dogfennu'n glir unrhyw anghenion a allai fod gan glaf nad oeddent yn cael eu diwallu pan oedd yn cael gofal yn yr ysbyty. Mae'n bwysig y caiff anghenion nas diwallwyd eu dogfennu fel y gall y tîm amlddisgyblaethol adolygu'r rhain yn rheolaidd er mwyn ystyried opsiynau i ddiwallu'r anghenion hynny.

Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Nodwyd gennym eu bod yn drylwyr ac yn gynhwysfawr iawn. Roedd risgiau ac anghenion sylweddol yn cael eu hasesu'n drylwyr a chaiff cynlluniau cynhwysfawr eu llunio i fynd i'r afael â nhw. Roedd dystiolaeth hefyd o Gynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng yn y ffeiliau gofal.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Ar adeg ein harolygiad, cadarnhaodd y staff nad oedd unrhyw gleifion yn destun awdurdodiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Cadarnhaodd y Rheolwr Cofrestredig dros dro fod y staff wedi cael yr

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1983/20/section/17>

hyfforddiant diweddaraf mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd
Meddyliol/Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn Heatherwood Court ac roedd penodiad y rheolwr cofrestredig a'r rheolwr cyffredinol newydd yn cael effaith gadarnhaol. Roedd y trefniadau lleol hefyd yn cael eu cefnogi'n dda gan y strwythur rheoli yn Ludlow Street Healthcare. Arsylwyd ar dîm staff ymrwymedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda.

Roedd aelodau o staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg ac roedd gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogaeth ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth. Roedd y staff yn cael hyfforddiant gorfodol rheolaidd, sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion. Roedd y trefniadau hynny'n cael eu cofnodi fel y gellid eu hadolygu.

Roedd gan uwch reolwyr a nodwyd gyfrifoldebau penodol am sicrhau bod y rhaglen lywodraethu yn parhau i fod yn flaenllaw wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r uwch strwythur rheoli wedi newid yn ddiweddar; mae gan yr unigolion sydd newydd eu penodi i'r rolau hyn drosolwg clir a strwythuredig o'u rolau yn y sefydliad. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae angen monitro'r trefniadau llywodraethu ac arfer y staff mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau ac arsylwi ar gleifion yn ystod y nos yn fanylach.

Drwy sgysiau â'r staff, arsylwi ar ymgysylltu'r tîm amlddisgyblaethol ac adolygu cofnodion cleifion, gwelsom dystiolaeth o waith tîm amlddisgyblaethol cryf yn Heatherwood Court. Siaradodd y staff yn ffafriol am waith amlddisgyblaethol, gan nodi eu bod yn teimlo bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed a'u parchu gan aelodau eraill o'r staff.

Mae'n destun pryder nad oedd uwch aelodau o'r staff, yn ystod yr ymweliad gyda'r nos, yn gallu darparu gwybodaeth yn hyderus am nifer y cleifion a lefelau staffio yn yr ysbyty ac ar wardiau unigol.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn Heatherwood Court, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael i uwch aelodau o'r staff o ran nifer y cleifion a'u hanghenion yn ogystal â nifer y staff sydd ar gael pe bai eu hangen mewn argyfwng.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd hi'n amlwg bod y darparwr cofrestredig yn monitro pryderon a digwyddiadau yn lleol yn Heatherwood Court ac yn gorfforaethol drwy systemau adrodd rheolaidd. Roedd system adolygu gan gymheiriaid ar waith er mwyn rhoi trosolwg ychwanegol a deall gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Adolygwyd y niferoedd staffio yn Heatherwood Court a'r hyn a nodwyd yn ei Ddatganiad o Ddiben. Roedd 12 o swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig yr oedd y darparwr cofrestredig yn ceisio recriwtio unigolion i'w llenwi.

Er mwyn llenwi unrhyw fylchau yn y rota staffio a all godi oherwydd swyddi gwag, roedd gan y darparwr cofrestredig system cronfa staff ar waith ac roedd yn cynnig goramser. Roedd y darparwr cofrestredig hefyd yn defnyddio nyrsys cofrestredig asiantaeth; o adolygu rotâu'r staff, roedd yn amlwg, ar y cyfan, fod y darparwr cofrestredig yn cyflogi nyrsys asiantaeth a oedd yn gweithio yn yr ysbyty yn rheolaidd ac a oedd yn gyfarwydd â gweithio yn yr ysbyty a gyda'r grŵp cleifion, ac roedd hyn yn helpu i sicrhau parhad gofal i'r cleifion.

Roedd proses sefydlu gadarn ar waith hefyd ac nid oedd y staff yn cael mynd ar y wardiau nes iddynt ei chwblhau.

Adolygwyd ystadegau'r hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff yn Heatherwood Court a nodwyd gennym fod cyfraddau cwblhau yn uchel iawn. Roedd y system electronig yn rhoi manylion cyrsiau a manylion am gydymffurfiaeth aelodau unigol o'r staff i'r rheolwr cyffredinol.

Roedd y staff a oedd yn cael eu cyflogi gan y darparwr cofrestredig yn rhan o Ludlow Street Healthcare Academy a oedd yn darparu hyfforddiant gorfodol i'r staff ynghyd â hyfforddiant ychwanegol fel rhan o'u datblygiad gyrfa. Roedd rhai nyrsys cofrestredig hefyd yn cael cymorth i gwblhau eu Gradd Meistr mewn Nyrsio.

Mae'r darparwr cofrestredig wedi rhoi prosesau goruchwyllo ar waith er mwyn i'r staff gofnodi goruchwylloeth ffurfiol ac anffurfiol i'w chynnwys yn eu hadolygiad datblygu perfformiad blynyddol. Mae'r broses adolygu datblygiad perfformiad lawn newydd gael ei chyflwyno yn yr ysbyty ond caiff ei datblygu gan y rheolwr cyffredinol newydd

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Esboniodd y staff fod prosesau recriwtio Ludlow Street Healthcare ar waith yn Heatherwood Court. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn agored ac yn deg. Cyn iddynt gael eu cyflogi cafwyd geirdaon, cynhaliwyd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriwyd cymwysterau proffesiynol.

Roedd yn ofynnol i'r staff gwblhau rhaglen sefydlu strwythuredig cyn dechrau gweithio yn Heatherwood Court.

3. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffordd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

4. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd braich cau'r drws yn yr ystafell ddydd ar ward Chepstow wedi dod yn rhydd.	Gallai'r cleifion niweidio eu hunain.	Hysbyswyd y Rheolwr Cofrestredig Dros Dro am y mater	Aethpwyd â hi oddi yno ar unwaith

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Heatherwood Court
Ward/uned(au): Chepstow, Cardigan, Caernarfon, Caerphilly
Dyddiad arolygu: 19, 20, 21 Tachwedd 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd			
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl osodiadau a ffitiadau yn ddiogel ac yn briodol i'r grŵp cleifion	10. Urddas a pharch	Mae staff Heatherwood Court (HWC) yn cwblhau archwiliad amgylcheddol dyddiol ar bob sifft sy'n nodi unrhyw faterion amgylcheddol newydd neu unrhyw faterion amgylcheddol nad ymdriniwyd â nhw.	Y Nyrs â Chyfrifoldeb i sicrhau y cynhelir archwiliadau amgylcheddol Rheolwr yr Uned i	Dyddiol / parhaus Dyddiol / parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae Rheolwyr yr Unedau yn coladu'r holl wybodaeth berthnasol bob dydd ac yn sicrhau bod unrhyw geisiadau cynnal a chadw ar gyfer gwaith atgyweirio neu ddodrefn newydd yn cael eu cyflwyno ar unwaith drwy ein system ceisiadau cynnal a chadw electronig.</p> <p>At hynny, os codir unrhyw faterion cynnal a chadw y mae angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith, mae gan HWC system ar alwad 24 awr ar waith er mwyn sicrhau y gellir mynd i'r afael ag unrhyw risgiau neu ddiffygion amgylcheddol ar unwaith.</p>	<p>edrych ar y pecynnau gwaith papur dyddiol bob dydd a rhoi gwybod am unrhyw faterion amgylcheddol drwy'r system cofnodi cynnal a chadw electronig.</p> <p>Mae'r holl staff ar alwad yn gyfrifol am roi gwybod am bryderon amgylcheddol wrth iddynt godi a defnyddio'r system cynnal a chadw ar alwad i fynd i'r afael ag unrhyw faterion brys sy'n ymwneud â diogelwch.</p>	<p>Dyddiol parhaus</p> <p>/</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff asiantaeth yn cynnal y safonau gofal a ddisgwylir ac a ddangosir gan yr aelodau parhaol o'r staff</p>		<p>Mae'r Rheolwr Cofrestredig a'r Rheolwr Arwain Clinigol wedi cyfarfod â'r darparwr a ffeirir ar gyfer staff asiantaeth er mwyn trafod ei safonau recriwtio, sefydlu a hyfforddi. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn mae'r canlynol ar waith yn Heatherwood Court mewn perthynas â phob sifft asiantaeth:</p>	<p>Y Rheolwr Cyffredinol i gwblhau archwiliad amgylcheddol wythnosol o'r ysbyty er mwyn nodi unrhyw faterion amgylcheddol nad ymdriniwyd â nhw a'u huwchgyfeirio yn unol â hynny</p> <p>Y Rheolwr Cofrestredig / Rheolwr Arwain Clinigol i gydgyssylltu</p>	<p>Wythnosol / parhaus</p> <p>Cyfarfodydd misol</p> <p>Cyn neilltuo</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> Mae'n ofynnol i bob asiantaeth ddarparu cofnod o'r holl hyfforddiant staff sydd wedi'i glustnodi ganddi a thystiolaeth o wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn i staff weithio yn HWC Caiff "pasbortiau" asiantaeth eu harchwilio gan Weinyddwr yr Ysbyty bob dydd. Mae'n ofynnol i staff asiantaeth gwblhau rhaglen sefydlu lawn ar eu sifft gyntaf ac wedyn bob 10 diwrnod yn dilyn eu sifft gyntaf. Caiff hyn ei archwilio gan Weinyddwr yr Ysbyty sy'n edrych ar y rhestrau staffio bob dydd ac yn anfon negeseuon e-bost er mwyn atgoffa'r rhai sydd â chyfrifoldeb am y sifft i sicrhau bod y rhaglenni sefydlu/ailsefydlu gofynnol yn cael eu cwblhau yn unol â'r amserlen ofynnol 	<p>Rheolwyr Unedau / Gweinyddwr yr Ysbyty</p> <p>Gweinyddwr yr Ysbyty</p> <p>Rheolwyr Unedau / Gweinyddwr yr Ysbyty</p> <p>Gweinyddwr yr Ysbyty / y Nyrs â Chyfrifoldeb am y sifft berthnasol</p> <p>Rheolwyr Uned</p>	<p>staff</p> <p>Dyddiol</p> <p>Dyddiol</p> <p>Dyddiol</p> <p>Dyddiol</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> Mae HWC wedi cyflwyno rhestr wirio cymhwysedd ddyddiol i'w defnyddio gan bob Rheolwr Uned. Defnyddir y rhestr wirio fel adnodd i ryngweithio â'r holl staff ar sifft er mwyn cadarnhau, ar lafar, eu bod yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae hyn wedi'i dargedu'n benodol at aelodau newydd o staff ac yn fwy uniongyrchol at y staff asiantaeth ar sifft fel adnodd ychwanegol i sicrhau eu bod yn gweithio i'r un safonau â'r staff arferol. Yn ogystal â'r adnodd cymhwysedd dyddiol hwn, cynhelir archwiliad bob tair wythnos gan y rheolwr sy'n cyflawni rôl "efydd ar alwad". Defnyddir yr adnodd archwilio hwn ym mhob rhan o'r ysbyty ac mae wedi'i anelu at y staff asiantaeth hynny sy'n newydd i'r ysbyty. 	<p>Rheolwr Efydd ar Alwad</p> <p>Y Nyrs Arweiniol ar gyfer</p>	<p>Deirgwaith yr wythnos</p> <p>Hyfforddiant misol (y 3^{ydd} dydd Llun ym mhob mis)</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> Mae hyfforddiant terfynau a diogelwch therapiwtig penodol hefyd yn cael ei ddarparu ar y 3^{ydd} dydd Llun ym mhob mis. Mae HWC wedi gwahodd yr asiantaethau i anfon eu staff i'r sesiynau hyn ac mae tua 12 o staff yr asiantaethau hyn wedi derbyn hyfforddiant ers mis Rhagfyr. Mae HWC hefyd wedi gwahodd recriwtwyr o'r asiantaethau i fod yn bresennol yn ystod proses gyfweild HWC er mwyn deall y gofynion y mae HWC yn chwilio amdanynt wrth iddo recriwtio ei staff ei hun ymhellach. 	<p>Diogelwch i ddarparu'r hyfforddiant.</p> <p>Y Rheolwr Arwain Clinigol i gydgyssylltu â'r asiantaethau perthnasol ar gyfer mynychwyr</p>	Cyfarfodydd misol
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gael ar hysbysfyrddau'r cleifion ar bob ward.	9. Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion	Mae poster â gwybodaeth sylfaenol am AGIC bellach wedi'i roi i bob uned. At hynny, mae llawlyfr a phroses gwyno'r cleifion wedi'u diweddarau'n llwyr er mwyn cynnwys holl fanylion cyswllt perthnasol AGIC.	Rheolwyr Unedau i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnal a'i harddangos	Deirgwaith yr wythnos fel rhan o'r broses archwilio ar alwad efydd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae rhan o'r archwiliad "efydd ar alwad" wedi'i haddasu er mwyn sicrhau bod y rheolwr ar alwad hefyd yn cadarnhau bod pob poster â gwybodaeth berthnasol yn cael ei harddangos yn unol â'r gofynion rheoleiddiol.		
	18. Cyfathrebu effeithiol			
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y gwasanaethau therapi i gleifion yn hygyrch er mwyn diwallu anghenion y cleifion	8. Cynllunio a darparu gofal	<p>Mae'r adran therapi galwedigaethol wedi cael ei hailstrwythuro er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r 'Hub' a sicrhau bod rhaglen lawn o weithgareddau yn cael ei chynnig.</p> <p>Fel rhan o'r broses ailstrwythuro hon bu'r Cydgysylltydd Gweithgareddau yn gweithio o 9am tan 5pm er mwyn helpu cleifion i drefnu eu hamser yn ystyrlon a sicrhau bod rhaglen benodol o weithgareddau yn cael ei chynnig.</p> <p>Mae'r rhain yn hygyrch er mwyn diwallu anghenion y cleifion ac mae arolwg</p>	Uwch Reolwr Therapi Galwedigaethol / Arweinyddiaeth Glinigol	Diweddariadau misol mewn Llywodraethu Lleol

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>wedi'i ddsbarthu er mwyn coladu barn cleifion am y gweithgareddau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn yr 'Hub'. Yn dilyn yr arolwg hwn, gwnaed newidiadau er mwyn diwallu anghenion y cleifion a bodloni eu diddordebau yn well o fewn yr 'Hub'.</p> <p>Ochr yn ochr â'r newid hwn mae'r adran therapi galwedigaethol wedi ehangu i gynnwys dau dechnegydd therapi galwedigaethol ychwanegol er mwyn diwallu anghenion y cleifion yn well a sicrhau bod ymyriadau therapi galwedigaethol sy'n canolbwyntio ar y claf yn cael eu hwyluso'n amserol.</p> <p>Mae'r Hyfforddwr Iechyd a Llesiant hefyd wedi dechrau gweithio ambell noson er mwyn hyrwyddo gweithgarwch ymgysylltu a diwallu anghenion y cleifion mewn perthynas â sesiynau therapi ychwanegol wedi'u trefnu.</p>		
	2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	hawliau dynol			
	5. Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth			
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r broses arsylwi yn ystod y nos ac yn darparu'r lefel briodol o arsylwi ar gyfer pob claf fel y'i nodir yn y cynllun gofal unigol.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Amgylchedd 4. Trefniadau Cynllunio at Argyfyngau	Ychwanegwyd testun at y Cynlluniau gofal arsylwi safonedig er mwyn sicrhau bod y manylion am yr hyn a ddisgwylir gan staff sy'n cyflawni'r arsylwadau perthnasol yn ystod y nos yn glir Ychwanegwyd testun er mwyn sicrhau eglurder: Yn ystod y nos a phan fydd y cleifion yn eu hystafelloedd gwely, gall y staff weld wyneb, gwddf a dwylo'r cleifion yn glir gyda thystiolaeth o anadlu a symud. Os na allant weld y cleifion yn glir dylai'r staff fynd i mewn i'r ystafell yn unol â'r polisi/fideos ar arsylwi.	Rheolwr Cofrestredig	Parhaus – dechreuodd ar 22 Tach i barhau am gyfnod amhenodol

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Anfonwyd neges e-bost at bob aelod o'r staff yn ei hysbysu am yr ychwanegiad hwn.</p> <p>Ychwanegwyd gwybodaeth at waith papur sefydlu presennol yr unedau er mwyn hysbysu'r holl staff asiantaeth.</p> <p>Mesurau ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwbl ymwybodol o sut i gyflawni dyletswyddau arsylwi ychwanegol:</p> <p>Anfonodd y Rheolwr Cofrestredig enwebedig neges ddiweddar drwy e-bost at bob aelod o'r staff i'w hysbysu am y pryderon a godwyd yn yr hysbysiad gwella hwn a'r camau y bwriedir eu cymryd.</p> <p>Rheolwyr Unedau i gyfarfod wyneb yn wyneb gyda phob aelod o'u timau fel rhan o broses archwilio ddyddiol a</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwyr Uned</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>O 30 Tach ymlaen. Fe'i cwlheir bob</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>roddwyd ar waith yn ddiweddar. Bydd y broses yn cynnwys pob Rheolwr Uned yn rhyngweithio'n uniongyrchol â phob aelod o'r staff ar sifft er mwyn sicrhau bod y canlynol yn cael ei drafod a'i ddogfennu'n briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr holl staff i gadarnhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r polisi arsylwi a ble i ddod o hyd iddo er mwyn cyfeirio ato. • Yr holl staff i gadarnhau ar lafar eu bod yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt wrth gyflawni'r arsylwadau ychwanegol yn llawn ac wedyn llofnodi'r adnodd archwilio dyddiol er mwyn cadarnhau hynny. • Y Rheolwyr Uned i sicrhau bod yr holl staff sy'n cyflawni arsylwadau ychwanegol yn cael eu monitro wrth iddynt gwblhau'r holl wiriadau a dogfennau angenrheidiol yn unol â'r polisi. Wedyn caiff hyn ei ddogfennu yn 		<p>dydd ar gyfer pob uned / wedi'i rannu rhwng y sifftiau dydd a'r sifftiau nos yn dibynnu ar batrwm sifftiau'r Rheolwyr Uned.</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig fynd i'r afael â swyddfa'r ward ar ward Chepstow sy'n gyfyng ac yn orlawn ac nad oes modd gweld y ward na'r cleifion ohoni.</p>		<p>unol â hynny ym mhapur gwaith adnodd archwilio dyddiol y Rheolwyr Uned.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Rheolwyr Uned i nodi materion hyfforddiant wrth iddynt godi fel rhan o'r broses ddyddiol a sicrhau y caiff unrhyw ofynion o ran hyfforddiant eu cofnodi a'u bodloni wrth iddynt godi. • At hynny, rhaid i'r holl Reolwyr Uned sicrhau bod pob aelod o'u tîm staff yn deall y polisi arsylwadau ychwanegol ac yn cydymffurfio ag ef fel amcan sefydlog ym mhob adolygiad o berfformiad a datblygiad. <p>Sicrhau bod copi called o'r polisi arsylwadau ym mhob un o swyddfeydd y nyrsys.</p> <p>Anfon y polisi a nodyn atgoffa drwy e-bost at y staff fod modd cael gafael ar y polisi hefyd drwy 'Staffnet'</p>		<p>Adolygiadau o berfformiad a datblygiad pob aelod o'r staff i'w cwblhau erbyn 31 Ion 19</p> <p>Cwblhawyd 30 Tach 18</p> <p>Cwblhawyd 28 Tach 18</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Symudwyd y swyddfa yn ddiweddar er mwyn ei gwneud yn bosibl i fwy o le gael ei roi i'r cleifion yn ystafell dawel ar y ward hon.</p> <p>Diwygiwyd yr adnodd archwilio efydd ar alwad yn ddiweddar er mwyn cynnwys yr asesiad o hygyrchedd ardaloedd y swyddfeydd.</p> <p>Mae strwythur yr adeilad a'r cynllun presennol yn cyfyngu ar y posibiladau ar gyfer newid. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith nad oes modd gweld fawr ddim o'r swyddfa, mae cynlluniau dichonoldeb yn cael eu hystyried i gael gwared ar yr agorfa bresennol a rhoi ffenestr yn ei lle. At hynny, câi drych gwyllo ei osod yn y corridor fel y gellid edrych i fyny ac i lawr y corridor.</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig / Chyfarwyddwr Gweithredol</p>	<p>Parhaus</p>
	<p>13. Atal a rheoli heintiau a</p>			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	dihalogi			
	14. Maeth			
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn llofnodi taflenni cyffuriau pan fydd cyffuriau yn cael eu rhoi i gleifion.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trolïau meddyginiaeth a'r cwpwrdd lle y cedwir cyffuriau a all gael eu camdefnyddio wedi'u cloi pan na fydd yr ystafell driniaeth yn cael ei defnyddio.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff eitemau meddygol untro eu gwaredu ar ôl iddynt gael eu defnyddio unwaith yn unig.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copi caled o'r polisi rheoli meddyginiaeth ar gael ym mhob ystafell driniaeth.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn mabwysiadu technegau peidio â</p>	15. Rheoli meddyginiaethau	<p>Darperir sesiynau goruchwyllo ar unwaith ar gyfer y nyrs a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Caiff ei hatal ar unwaith rhag cyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud â meddyginiaeth nes y caiff ei hyfforddiant ailasesu ffurfiol gan y Rheolwr Arwain Clinigol.</p> <p>Anfonir gohebiaeth at bob aelod o'r tîm nyrsio er mwyn eu hysbysu am y pryderon a godwyd yn yr hysbysiad sicrwydd hwn. Hysbyswyd pob nyrs am yr hyn a nodwyd a'r camau bwriedir eu cymryd er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.</p> <p>Trefnwyd hyfforddiant ar reoli meddyginiaeth ac ailasesiadau cymhwysedd meddyginiaeth ar gyfer</p>	Y Rheolwr Arwain Clinigol i gydgyssylltu'r holl hyfforddiant ailasesu perthnasol yn y dyfodol	<p>Ailaseswyd y ddwy nyrs ar 27 Tach 18.</p> <p>Cwblhawyd 23/11/18</p> <p>Ailaseswyd y tîm nyrsio cyfan erbyn diwedd mis</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>chyffwrdd priodol wrth roi meddyginiaeth.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y stoc o gyffuriau a reolir ym mhob ystafell driniaeth ei chofnodi'n gywir.</p>		<p>pob aelod o'r tîm nyrsio.</p> <p>Mae'r Rheolwyr Uned wedi cyfarfod â'u staff nyrsio eu hunain wyneb yn wyneb fel rhan o broses archwilio ddyddiol a roddwyd ar waith yn ddiweddar. Mae'r broses hon bellach yn cynnwys pob Rheolwr Uned yn rhyngweithio â'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud â meddyginiaethau er mwyn sicrhau y caiff y canlynol ei drafod a'i ddogfennu'n briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li data-bbox="1031 808 1528 873">• Cadarnhad o ailasesiad ar gyfer cymhwysedd meddyginiaeth <li data-bbox="1031 1214 1528 1279">• Hapwiriadau drwy gydol y sifft er mwyn sicrhau bod arfer gorau yn 	<p>Rheolwyr Uned (fel rhan o'r broses gwirio cymhwysedd ddyddiol)</p>	<p>Rhagfyr 18.</p> <p>Cwblhawyd hyfforddiant asesu ychwanegol gan Ashtons ym mis Ionawr 19</p> <p>Hyfforddiant ailasesu i'w gynnal bod tri mis ar gyfer pob aelod o'r staff nyrsio</p> <p>Parhaus o 26 Tach ymlaen</p> <p>Hapwiriadau deirgwaith yr wythnos o 30</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>cael ei ddilyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodi materion a phryderon ar unwaith Adnodd archwilio wedi'i ddogfennu'n llawn i ddangos bod y broses hon ar waith ac yn cael ei dilyn. <p>Bydd y Rheolwr Arwain Clinigol yn sefydlu system lle mae'r rheolwyr yn cynnal hapwiriadau o ystafelloedd meddyginiaeth er mwyn sicrhau bod arfer gorau yn cael ei ddilyn.</p>	Arweinydd/Rheolwr Clinigol	<p>Tach ymlaen</p> <p>Wythnosol</p>
	11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed			
	17. Rheoli gwaed			
	16. Dyfeisiau meddygol, offer a systemau			

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	diagnostig			
	7. Gofal sy'n ddiogel ac yn glinigol effeithiol			
	6. Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd 21. Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd			
	19. Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu			
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion nas diwallwyd eu dogfennu ar gyfer pob claf	20. Rheoli cofnodion	Cyfarfu'r Uwch Dîm Rheoli i drafod y cam gweithredu hwn. Mae'r canlynol bellach wedi'i wneud: <ul style="list-style-type: none"> Ychwanegwyd testun at dempled sylfaenol y tîm amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau y caiff anghenion nas diwallwyd eu trafod yn glir a, lle y bo'n 	Y Clinigwr Cyfrifol i sicrhau y caiff ei gwblhau ym mhob cyfarfod perthnasol	Ar unwaith ac yn barhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gymwys, eu dogfennu'n briodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ychwanegwyd yr un testun at dempled dull y rhaglen gofal (CPA). 		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael i uwch aelodau o'r staff ar y safle am nifer y cleifion a'u hanghenion yn ogystal â nifer y staff sydd ar gael os bydd angen hyn mewn argyfwng.</p>	<p>1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd</p>	<p>Mae'r rhai sy'n cyflawni dyletswyddau "Uwch Swyddog ar y Safle" wedi cael diweddariad ynglŷn â'u rôl a'u cyfrifoldebau. Roedd hyn yn cynnwys y diweddariad canlynol i'r broses ar gyfer sicrhau y caiff gwybodaeth am y cleifion a'r staff ei diweddarau bob dydd a'i bod ar gael mewn lleoliad canolog:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Ysgrifennydd Meddygol yn anfon holl restrau'r cleifion (gan gynnwys adran, Uned, dyddiad derbyn i'r ysbyty ac ati) bod dydd at Arweinydd Tîm y Dderbynfa. • Anfonir y rhestr staffio ddyddiol, gan gynnwys cyfanswm y staff ar bob Uned a'r nifer sy'n cyflawni arsylwadau ychwanegol at 	<p>Y Rheolwr Arwain Clinigol i ychwanegu at broses oruchwylio'r Rheolwyr Uned er mwyn rhaeadru i bob aelod o'r staff nyrso</p> <p>Ysgrifennydd Meddygol</p> <p>Gweinyddwr yr Ysbyty</p>	<p>Ar unwaith / yn barhaus</p> <p>Dyddiol</p> <p>Dyddiol</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Arweinydd Tîm y Dderbynfa bob dydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae Arweinydd Tîm y Dderbynfa yn coladu'r wybodaeth hon ar un ffeil copi caled a gaiff ei storio wedyn yn y Dderbynfa er mwyn i'r Uwch Reolwr ar y Safle allu cael gafael arni. 	Arweinydd Tîm y Dderbynfa	Dyddiol
	23 Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau			
	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol			
	24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu			

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Andy Keen

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig Dros Dro

Dyddiad: 5 Chwefror 2019